WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**


Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1795A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Jeremy Evans ac Amanda Hughes dan gyfarwyddyd Huw Rees a Richard Harries.

# Cynnwys

Dros y blynyddoedd diwethaf mae defnydd y Cyngor o gronfeydd wrth gefn i ariannu ei gyllideb refeniw wedi lleihau eu lefelau'n sylweddol; mae'r Cyngor yn cydnabod bod hyn yn anghynaliadwy ac mae wedi cymryd camau i wella'i sefyllfa o ran alldro'r gyllideb a chyflawni arbedion.


Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl

Dros y blynyddoedd diwethaf mae defnydd y Cyngor o gronfeydd wrth gefn i ariannu ei gyllideb refeniw wedi lleihau eu lefelau'n sylweddol; mae'r Cyngor yn cydnabod bod hyn yn anghynaliadwy ac mae wedi cymryd camau i wella'i sefyllfa o ran alldro'r gyllideb a chyflawni arbedion 7

Mae gan y Cyngor strategaeth ariannol eglur, ond mae angen iddo gynllunio'n fwy ar gyfer y tymor hwy a chanolbwyntio ar wella cydnerthedd trwy gynyddu ei gronfeydd wrth gefn 7

Mae'r Cyngor wedi gorwario ei gyllideb arfaethedig mewn rhai meysydd, yn gyffredin â chynghorau eraill; fodd bynnag, er ei fod wedi cymryd camau i ddeall a chyfyngu ar y gorwariant hwn, bydd meysydd gwasanaeth allweddol sy'n ymateb i'r galw yn dal i fod yn her 8

Mae'r modd y mae'r Cyngor yn cyflawni ei arbedion wedi'u cynllunio wedi gwella, ond yn gyffredin â chynghorau eraill, bydd adnabod a chyflawni arbedion yn fwy o her yn y dyfodol 10

Mae defnydd y Cyngor o gronfeydd wrth gefn i ariannu gwariant refeniw wedi lleihau ei gronfeydd wrth gefn, cydnerthedd y Cyngor yn wyneb risgiau i wasanaethau a'i gynaliadwyedd ar y cyfan 11

Mae cyfraddau casglu'r dreth gyngor yn dal i fod yn gryf ac mae'r dreth gyngor fel cyfran o gyllideb refeniw'r Cyngor wedi cynyddu dros amser 12

Nid oes gan y Cyngor unrhyw brosiectau â ffocws masnachol a chan hynny nid oes ganddo unrhyw fenthyciadau cysylltiedig ac mae ei lefel fenthyca ar y cyfan yn dal i fod yn sefydlog 13

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Roedd y prosiect yn ceisio asesu cynaliadwyedd sefyllfa ariannol cynghorau yn y tymor byr a chanolig.

2 Roedd hyn yn cynnwys ffocws ar strategaeth ariannol pob cyngor yn ogystal ag adolygu ‘dangosyddion’ ariannol o sefyllfa ariannol pob cyngor mewn perthynas â’r canlynol:

- Perfformiad yn erbyn y gyllideb
- Cyflawni cynlluniau arbedion
- Defnyddio cronfeydd wrth gefn
- Y dreth gyngor
- Benthyca

#### Arddangosyn 1: ynglŷn â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Mae’r arddangosyn hwn yn nodi peth gwybodaeth gefndir am gyllideb refeniw net Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (y Cyngor), nifer y staff y mae’n eu cyflogi a gwerth ei asedau sefydlog.



Roedd cyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2019-20 yn £220 miliwn



Mae’r Cyngor yn cyflogi tua 5,200 o bobl




Roedd asedau sefydlog y Cyngor ar 31 Mawrth 2019 yn £437 miliwn

Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

3 Fe gynhaliom ni’r asesiad hwn am ein bod wedi adnabod cynaliadwyedd ariannol fel risg i allu cynghorau i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio adnoddau. Yn rhannol, cafodd hyn ei oleuo gan brofiadau diweddar rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am y sefyllfa ariannol mewn cynghorau yng Nghymru, a’r duedd gyffredinol bod adnoddau ar gyfer llywodraeth leol yn lleihau ar y cyd â galw cynyddol am rai gwasanaethau.

Arddangosyn 2: ffynonellau refeniw'r Cyngor

Mae'r siart cylch isod yn dangos faint o arian gafodd y Cyngor o wahanol ffynonellau ariannu yn ystod 2018-19.




Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

4 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Tachwedd 2019.

## Yr hyn a ganfuom

5 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: Dros y blynyddoedd diwethaf mae defnydd y Cyngor o gronfeydd wrth gefn i ariannu ei gyllideb refeniw wedi lleihau eu lefelau'n sylweddol; mae'r Cyngor yn cydnabod bod hyn yn anghynaliadwy ac mae wedi cymryd camau i wella'i sefyllfa o ran alldro'r gyllideb a chyflawni arbedion. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae gan y Cyngor strategaeth ariannol eglur, ond mae angen iddo gynllunio'n fwy ar gyfer y tymor hwy a chanolbwyntio ar wella cydnerthedd trwy gynyddu ei gronfeydd wrth gefn;
- mae'r Cyngor wedi gorwario ei gyllideb arfaethedig mewn rhai meysydd, yn gyffredin â chynghorau eraill; fodd bynnag, er ei fod wedi cymryd camau i

ddeall a chyfyngu ar y gorwariant hwn, bydd meysydd gwasanaeth allweddol sy’n ymateb i’r galw yn dal i fod yn her;

- mae’r modd y mae’r Cyngor yn cyflawni ei arbedion wedi’u cynllunio wedi gwella, ond yn gyffredin â chynghorau eraill, bydd adnabod a chyflawni arbedion yn fwy o her yn y dyfodol;
- mae defnydd y Cyngor o gronfeydd wrth gefn i ariannu gwariant refeniw wedi lleihau ei gronfeydd wrth gefn, cydnerthedd y Cyngor yn wyneb risgiau i wasanaethau a’i gynaliadwyedd ar y cyfan;
- mae cyfraddau casglu’r dreth gyngor yn dal i fod yn gryf ac mae’r dreth gyngor fel cyfran o gyllideb refeniw’r Cyngor wedi cynyddu dros amser; ac
- nid oes gan y Cyngor unrhyw brosiectau â ffocws masnachol a chan hynny nid oes ganddo unrhyw fenthyciadau cysylltiedig ac mae ei lefel fenthyca ar y cyfan yn dal i fod yn sefydlog.

# Adroddiad manwl

## Dros y blynyddoedd diwethaf mae defnydd y Cyngor o gronfeydd wrth gefn i ariannu ei gyllideb refeniw wedi lleihau eu lefelau'n sylweddol; mae'r Cyngor yn cydnabod bod hyn yn anghynaliadwy ac mae wedi cymryd camau i wella'i sefyllfa o ran alldro'r gyllideb a chyflawni arbedion

### Mae gan y Cyngor strategaeth ariannol eglur, ond mae angen iddo gynllunio'n fwy ar gyfer y tymor hwy a chanolbwyntio ar wella cydnerthedd trwy gynyddu ei gronfeydd wrth gefn

#### Pam fod cynllunio ariannol strategol yn bwysig

6 Mae strategaeth ariannol eglur a chadarn yn bwysig i adnabod y lefel debygol o gyllid sydd ar gael i gyngor, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu. O ystyried y pwysau o ran cyllid a fu'n ddiweddar ac a ragwelir ar gyfer yr holl gynghorau mae hefyd yn bwysig nodi sut y mae'n bwriadu ymateb i'r pwysau hynny, ac yn enwedig sut y bydd yn llenwi bylchau a ragwelir yn y cyllid.

#### Yr hyn a ganfuom


7 Mae gan y Cyngor strategaeth ariannol tymor byr/canolig sy'n eglur ac wedi'i mynegi'n dda. Mae angen i'r Cyngor gynllunio ymhellach i'r dyfodol a chanolbwyntio ar ei gydnerthedd. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- cyn y setliad dros dro roedd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2020-21 yn nodi'n glir bod bwlch o £12.1 miliwn yn y gyllideb. Ychydig dros £10 miliwn yw'r rhagolwg ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Byddai amcanestyniadau tymor hwy'n ddefnyddiol i helpu'r Cyngor i gynllunio ymhellach i'r dyfodol.
- mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd y bwlch a ragamcanir yn ei gyllideb yn cynyddu gan bod rhai gwasanaethau megis gwasanaethau Oedolion a Phlant ac addysg arbenigol yn wynebu pwysau sylweddol o ran costau. O ganlyniad, bydd y Cyngor yn defnyddio dull ac iddo sawl elfen gan geisio gostyngiadau yn y gyllideb trwy'r mentrau canlynol:
  - ail-lunio gwasanaethau/rhaglenni moderneiddio;
  - rhaglenni rhanbarthol/cydweithio;
  - newidiadau i ffioedd, taliadau a chreu incwm;
  - Modelau Darparu Amgen; a

– lleihau gwasanaethau sy’n flaenoriaeth is/Rheoli’r galw.

### Arddangosyn 3: bwlch o ran cyllid a ragamcanir

Mae’r graff canlynol yn dangos y bwlch o ran cyllid y mae’r Cyngor wedi’i adnabod ar gyfer eleni, a’r ddwy flynedd ganlynol.




Ffynhonnell: Strategaeth Ariannol Tymor Canolig Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

## Mae’r Cyngor wedi gorwario ei gyllideb arfaethedig mewn rhai meysydd, yn gyffredin â chynghorau eraill; fodd bynnag, er ei fod wedi cymryd camau i ddeall a chyfyngu ar y gorwariant hwn, bydd meysydd gwasanaeth allweddol sy’n ymateb i’r galw yn dal i fod yn her

### Pam ei bod yn bwysig rhagweld gwariant yn gywir

8 Mae’n bwysig bod gorwariant a thanwariant yn cael eu cadw dan reolaeth a bod gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau y cynlluniwyd ar eu cyfer. Mae Cyngor sy’n methu â rhagweld gwariant yn gywir a chynllunio’n gywir ar ei gyfer yn wynebu risg o greu pwysau ariannol nas rhagwelwyd a allai beryglu’r gallu i bennu cyllideb fantoledig. Gall patrymau sylweddol o danwariant fod yn lleihau gallu cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol neu gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

## Yr hyn a ganfuom

9 Ar y cyfan, mae'r Cyngor wedi cadw'n agos at ei gyllidebau arfaethedig yn y rhan fwyaf o feysydd, ond mae gorwariannau mewn rhai meysydd, yn gyffredin â chynghorau eraill, yn dal i fod yn her. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- ar y cyfan bu gan y Cyngor orwariannau net bach dros y tair blynedd ddiwethaf, a achoswyd gan bwysau ar wasanaethau. Mae'r rhain wedi cael eu gwrthbwyso gan rai tanwariannau a thrwy ddefnyddio addasiadau cyfrifyddu technegol yn ystod y flwyddyn, gweithgarwch ychwanegol i gasglu'r dreth gyngor ac incwm ychwanegol untro sydd wedi helpu'r Cyngor i leihau ei orwariannau ar y cyfan.
- yn y flwyddyn gyfredol (2019-20) mae pwysau wedi cael eu hadnabod mewn meysydd allweddol megis gwasanaethau addysg arbenigol, lleoliadau y tu allan i'r sir (Gofal Cymdeithasol i Blant) a Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Ym mis Medi 2019 fe amlygodd y Cyngor y potensial ar gyfer gorwariant o £1.8 miliwn ar gyfer 2019-20. Mae'r Cyngor wedi datblygu cynllun adfer sydd wedi'i fwriadu i warchod gwasanaethau rhag gostyngiadau/toriadau pellach i'r gyllideb yn ystod y flwyddyn.

## Arddangosyn 4: swm y gorwariant/tanwariant yn berthynol i gyfanswm y gyllideb refeniw net

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos swm y gorwariant neu'r tanwariant ar gyfer cyllideb refeniw net y Cyngor ar y cyfan am y ddwy flynedd ddiwethaf a hefyd yr alldro rhagamcanol ar ddiwedd y flwyddyn yn ôl y sefyllfa ar 30 Tachwedd 2019.

| | **Cyllideb Wreiddiol y gyllideb refeniw net** | **Alldro Gwirioneddol y gyllideb refeniw net** | **Swm y gwarged/ gorwariant ar y cyfan** | **Gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â'r gyllideb refeniw net** |
|---|---|---|---|---|
| 2017-18 | £206.1m | £206.4m | Gorwariant o £0.3m | Gorwariant o 0.1 |
| 2018-19 | £212.1m | £212.5m | Gorwariant o £0.4m | Gorwariant o 0.2% |
| 2019-20 | £220.0m | £220.5m | Gorwariant o £0.58m | Gorwariant o 0.2% |

Ffynhonnell: Adroddiadau monitro'r gyllideb gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

# Mae'r modd y mae'r Cyngor yn cyflawni ei arbedion wedi'u cynllunio wedi gwella, ond bydd adnabod a chyflawni arbedion yn fwy o her yn y dyfodol

## Pam fod y gallu i adnabod a chyflawni cynlluniau arbedion yn bwysig

10 Mae'r gallu i adnabod meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac i wneud yr arbedion hynny wedyn, yn agwedd allweddol ar sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol cynyddol. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni gall hyn arwain at orwariannau sy'n golygu bod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gan gynyddu lefel yr arbedion y mae eu hangen ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol i wneud iawn am hyn. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni a lle nad yw'n ofynnol i feysydd gwasanaeth wneud arbedion heb eu cynllunio, mae hyn yn cynyddu'r risg naill ai na fydd arbedion yn gyson â blaenoriaethau'r Cyngor, neu o ddatrysiadau 'byrdymor' nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

## Yr hyn a ganfuom

11 Canfuom fod gan y Cyngor hanes sy'n gwella o gyflawni'r arbedion penodol (gostyngiadau yn y gyllideb) y mae wedi'u hadnabod. Fodd bynnag, pe bai'r angen i ostwng cyllidebau'n parhau, bydd adnabod a chyflawni'r rhain yn dod yn fwy o her. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi cymhwyso gostyngiadau yn y gyllideb o £51.9 miliwn dros y chwe blynedd ddiwethaf. Yn 2015-16 nododd y Cyngor ei fod wedi cyflawni ei holl arbedion wedi'u cynllunio, ond nid oedd yn gallu dangos hyn yn eglur. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd dilynol mae'r Cyngor wedi gwella'r wybodaeth am ei gynlluniau arbedion a gwybodaeth am ei sefyllfa, gan gyflawni 92% o'i arbedion wedi'u cynllunio yn 2018-19 ac mae'n rhagweld y bydd yn cyflawni 95% o'i arbedion wedi'u cynllunio yn 2019-20. Mae'r gwelliant hwn wedi cael ei adlewyrchu yn y targedau perfformiad y mae'r Cyngor yn eu gosod iddo'i hun yn ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.
- yn gyffredin â chynghorau eraill, mae adnabod a chyflawni arbedion yn mynd yn fwy o her.

Arddangosyn 5: arbedion a gyflawnwyd yn ystod 2018-19 fel canran o'r arbedion wedi'u cynllunio

Mae'r arddangosyn canlynol yn nodi faint o arian yr oedd y Cyngor yn bwriadu ei arbed trwy arbedion wedi'u cynllunio yn ystod 2018-19 a faint o hyn y gwnaeth ei arbed mewn gwirionedd.

| **£6.15m** | **£5.65m** | **£0.5m** | **92%** |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr arbedion wedi'u cynllunio | Arbedion wedi'u cynllunio a gyflawnwyd | Arbedion wedi'u cynllunio nas cyflawnwyd | Canran yr arbedion a gyflawnwyd |

Ffynhonnell: Alldro monitro cyllideb refeniw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2018-19

## Mae defnydd y Cyngor o gronfeydd wrth gefn i ariannu gwariant refeniw wedi lleihau ei gronfeydd wrth gefn, cydnerthedd y Cyngor yn wyneb risgiau i wasanaethau a'i gynaliadwyedd ar y cyfan

### Pam ei bod yn bwysig rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy

12 Mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn rhwyd ddiogelwch bwysig i ategu cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â bod ar gael i ariannu pwysau annisgwyl o ran cyllid, gall cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn ffynhonnell cyllid bwysig i ariannu mentrau 'buddsoddi i arbed' sydd wedi'u bwriadu i leihau cost barhaus darparu gwasanaethau hefyd. Mae cynghorau sy'n dangos patrwm o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i lenwi bylchau yn eu cyllideb refeniw sy'n arwain at ostyngiadau ym malansau eu cronfeydd wrth gefn yn lleihau eu cydnerthedd i ariannu pwysau cyllidebol nas rhagwelwyd mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

### Yr hyn a ganfuom

13 Canfuom fod y Cyngor wedi lleihau ei ddibyniaeth ar gronfeydd wrth gefn ond ei fod wedi dal i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu pwysau cyllidebol yn y flwyddyn ddiwethaf, nad yw'n gynaliadwy. Mae lefel cronfeydd wrth gefn isel y Cyngor yn gwanhau gallu'r Cyngor i ymdrin â phwysau nas rhagwelwyd yn y gyllideb mewn blynyddoedd yn y dyfodol. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:


- dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae defnydd wedi'i gynllunio o £6.3 miliwn o gronfeydd wrth gefn wedi helpu i bennu cyllideb fantoledig. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo leihau'r ddibyniaeth ar ddefnydd wedi'i gynllunio o gronfeydd wrth gefn i gytuno ar gyllideb fantoledig gan nad yw hyn yn

gynaliadwy. O ganlyniad, mae wedi ceisio lleihau ei ddibyniaeth ar ddefnyddio cronfeydd wrth gefn yn y ffordd hon.

- bydd y sefyllfa a ragwelir ar gyfer y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn yn arwain at ddefnydd heb ei gynllunio o £1 filiwn o gronfeydd wrth gefn. Os na fydd yn cael ei liniaru gan ffynonellau incwm eraill, bydd hyn yn lleihau cronfeydd wrth gefn y Cyngor i oddeutu £10 miliwn (4.5% o'r Gyllideb Refeniw Net) y mae disgwyl y bydd tua £1 miliwn o hyn (0.5% o'r Gyllideb Refeniw Net) yn gronfeydd wrth gefn heb eu clustnodi ar ddiwedd mis Mawrth 2020. Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd defnyddio cronfeydd wrth gefn yn y ffordd yma'n cyfyngu eto ar gydnerthedd y Cyngor yn wyneb risgiau i wasanaethau a'i gynaliadwyedd ar y cyfan.
- mae Protocol Cronfeydd wrth Gefn a Balansau'r Cyngor yn nodi sut y mae'r Cyngor yn rheoli ac yn adolygu ei sefyllfa o ran cronfeydd wrth gefn. Mae'r Cabinet a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'n cael gwybodaeth trwy adroddiadau monitro'r gyllideb a ddarperir yn rheolaidd.

### Arddangosyn 6: swm y cronfeydd wrth gefn o'i gymharu â'r gyllideb flynyddol, 2018-19

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd gan y Cyngor yn ystod 2018-19 o'i gymharu â'i gyllideb refeniw net ar gyfer yr un flwyddyn.



| £212.1m | £11.6m | 5.5% |
|---|---|---|
| Cyllideb Refeniw Net | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy fel canran o'r Gyllideb Refeniw Net |

Ffynhonnell: Hunanasesiad o Gynaliadwyedd Ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

## Mae cyfraddau casglu'r dreth gyngor yn dal i fod yn gryf ac mae'r dreth gyngor fel cyfran o gyllideb refeniw'r Cyngor wedi cynyddu dros amser

### Pam fod cyfraddau casglu'r dreth gyngor yn bwysig

14 Bydd methu â chasglu swm y dreth gyngor sy'n ddyledus i'r Cyngor yn arwain at lai o incwm. Gall hyn yn ei dro gynyddu'r pwysau ariannol ar y Cyngor a'i gwneud yn

ofynnol iddo wneud arbedion ychwanegol. Er nad y dreth gyngor yw ffynhonnell cyllid fwyaf cynghorau yng Nghymru, mae'n dal i fod yn ffynhonnell incwm allweddol.

### Yr hyn a ganfuom

15 Canfuom fod gan y Cyngor hanes da o gasglu'r dreth gyngor gyda pherfformiad yn cynyddu dros gyfnod o 15 mlynedd. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi cyflawni cyfraddau da o ran casglu'r dreth gyngor dros y blynyddoedd diwethaf, a'r perfformiad yn 2018-19 oedd y gorau am 15 mlynedd, sef 97.8%; ac
- mae incwm o'r dreth gyngor yng Nghonwy wedi cynyddu o 22% o ffynonellau refeniw net yn 2010-11 i 30% yn 2019-20 (Ailddosbarthu Ardrethi Annomestig gan Lywodraeth Cymru, y Grant Cynnal Refeniw a'r Dreth Gyngor).

### Arddangosyn 7: cyfraddau casglu'r dreth gyngor

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos y ganran o'r dreth gyngor a oedd yn ddyledus a gasglwyd gan y Cyngor yn ystod 2018-19.



Roedd yr arian a gasglwyd o'r Dreth Gyngor ar 31 Mawrth 2019 yn £64.08 miliwn (97.8%) o'i gymharu â debyd casgladwy o £65.55 miliwn

Ffynhonnell: Ystadegau Cymru– Cyfraddau Casglu'r Dreth Gyngor yng Nghymru 2018-19.

## Nid oes gan y Cyngor unrhyw brosiectau â ffocws masnachol a chan hynny nid oes ganddo unrhyw fenthyciadau cysylltiedig ac mae ei lefel fenthyca ar y cyfan yn dal i fod yn sefydlog

### Pam ei bod yn bwysig cynnal lefelau benthyca cynaliadwy

16 Gall benthyca fod yn ffynhonnell cyllid werthfawr, er enghraifft i ariannu prosiectau cyfalaf ar raddfa fawr megis ysgolion neu ganolfannau hamdden newydd. Fodd

bynnag, gall cost ad-dalu arian a fenthyciwyd gan gynnwys costau llog gael effaith hirdymor ar gyllidebau refeniw parhaus. Mae cynghorau sy'n methu â tharo cydbwysedd priodol rhwng manteision a chostau benthyca ar y naill law a'u cyllidebau refeniw cyfredol a rhagamcanol ar y llaw arall yn wynebu risg o leihau swm y cyllid sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau. Mae benthyca i ariannu gweithgarwch masnachol yn cynnig y potensial i greu incwm ychwanegol i ariannu gwasanaethau'r cyngor; fodd bynnag, gall hefyd ddwyn risgiau sylweddol a fyddai'n gysylltiedig ag unrhyw weithgarwch masnachol.

## Yr hyn a ganfuom

17 Canfuom mai cyfyngedig yn unig yw incwm masnachol a benthyciadau cysylltiedig y Cyngor. Mae benthyciadau eraill yn fforddiadwy. Daethom i'r casgliadau hwn am y rhesymau canlynol:

- nid yw'r Cyngor wedi benthyca i ariannu buddsoddiadau masnachol.
- mae gan y Cyngor Strategaeth Rheoli Trysorlys a gymeradwywyd ac mae wedi pennu Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2019-20. Mae'r Cyngor yn dal i gael budd o gyfraddau llog isel.
- nid yw'r Cyngor yn cymryd unrhyw fenthyciadau hirdymor, ac eithrio mewn perthynas â Chynlluniau'r Fenter Benthyca Llywodraeth Leol ac mae wedi ad-dalu benthyciadau allan o fuddsoddiadau er mwyn lleihau'r risg iddo ac i leihau costau llog.
- roedd y lefel fenthyca ar y cyfan ar 31 Mawrth 2019 yn £178 miliwn. Gall y Cyngor godi cyllid ychwanegol os yw'n ofynnol.


## Arddangosyn 8: Arian a fenthyciwyd gan y Cyngor

Mae'r arddangosyn isod yn dangos cyfanswm yr arian y mae'r Cyngor wedi'i fenthyca i ariannu buddsoddiadau masnachol, yn ogystal â chost yr holl fenthyciadau sydd gan y Cyngor fel cyfran o'i gyllideb refeniw net.



**£0m**

Swm y benthyciadau i ariannu buddsoddiadau masnachol



**6%**

Cost cyfanswm y benthyciadau fel cyfran o'r gyllideb refeniw net 2018-19

Ffynhonnell: Hunanasesiad o Gynaliadwyedd Ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Ddatganiad Cyfrifon 2018-19.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru